# Adroddiad Dilynol ar Drefniadau Diogelu Corfforaethol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4745A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Adroddiad cryno

Ein dyletswyddau archwilio 4

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham 4

Ein dulliau archwilio 5

Yr hyn a ganfuwyd gennym 5

Atodiadau

Atodiad 1 – Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella yn ein hadolygiadau o drefniadau diogelu corfforaethol yn 2014, 2015 a 2019 8

Atodiad 2 – Argymhellion yn ein hadolygiad dilynol o drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant yn 2022 12

# Adroddiad cryno

## Ein dyletswyddau archwilio

1 Gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn o dan y dyletswyddau a gynhwysir yn adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004).

## Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

2 Gall bod â threfniadau diogelu corfforaethol cadarn roi sicrwydd i Gyngor fod gan bob cyflogai, aelod etholedig, gwirfoddolwr, llywodraethwr ysgol a chontractwr ran wrth ddiogelu a hyrwyddo lles plant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg o niwed.

3 Yn 2014, gwnaethom gynnal adolygiad ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant a gwnaethom dri chynnig ar gyfer gwella.

4 Yn 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad cenedlaethol yn dilyn adolygiad o'r trefniadau diogelu corfforaethol yng nghynghorau Cymru[1]. Gwnaeth yr adroddiad hwnnw wyth argymhelliad, gyda saith ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chynghorau ac un yn ymwneud â Llywodraeth Cymru.

5 Yn 2019, gwnaethom asesu sut roedd y Cyngor wedi ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwelliannau ac argymhellion yn ein hadroddiadau 2014 a 2015[2]. Gwnaethom ganfod bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd cyfyngedig, ac nad oedd trefniadau diogelu yn ddigon cyson i roi sicrwydd ar draws pob maes gwasanaeth. Gwnaethom ganfod nad oedd y Cyngor wedi ymdrin yn llawn ag wyth o'r deg argymhelliad cenedlaethol a chynigion lleol ar gyfer gwella.

6 Yn 2022, gwnaethom gwblhau adolygiad arall[3] i asesu cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a oedd yn weddill. Daethom i'r casgliad bod y pandemig wedi gohirio cynnydd y Cyngor ymhellach wrth ymdrin â'r argymhellion, er ei fod wedi cymryd camau diweddar i gryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor wedi ymdrin â'n hargymhellion blaenorol yn llawn, a gwnaethom gyhoeddi dau argymhelliad arall.

7 Roedd yr adolygiad hwn yn ceisio sicrwydd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd effeithiol ers 2022 wrth ymdrin â'r argymhellion sy'n weddill. O ganlyniad, canolbwyntiodd ein gwaith ar agweddau ar drefniadau diogelu corfforaethol sydd wedi'u cynnwys yn yr argymhellion hynny. **Ni** wnaethom adolygu:

- pob agwedd ar drefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor;

[1] Archwilio Cymru, Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru, Gorffennaf 2015

[2] Archwilio Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent – Adolygiad dilynol o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant, Hydref 2019

[3] Archwilio Cymru, Dilyniant Diogelu Corfforaethol – Cyngor Bwrdeistref Blaenau Gwent Borough Council, Tachwedd 2022

- trefniadau diogelu penodol ym meysydd Addysg neu Wasanaethau Cymdeithasol;
- trefniadau penodol ar gyfer atgyfeiriadau diogelu; neu
- ganlyniadau atgyfeiriadau diogelu.

8 Gwnaethom gynnal yr adolygiad ym mis Tachwedd 2024.

# Ein dulliau archwilio

9 Cwblhaodd y Cyngor hunanasesiad o'i gynnydd wrth ymdrin â'r argymhellion sy'n weddill gan ddarparu dogfennau ategol. Fe wnaethom adolygu'r dogfennau a'r hunanasesiad, a chyfweld â swyddogion allweddol ac aelodau etholedig. Gwnaethom hefyd arsylwi cyfarfod pwyllgor craffu lle'r oedd perfformiad diogelu corfforaethol yn eitem ar yr agenda. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn.

# Yr hyn a ganfuwyd gennym

10 Yn gyffredinol, canfuom **nad yw'r Cyngor wedi gwneud cynnydd digonol i ymdrin â'r argymhellion diogelu corfforaethol sy'n weddill**. Rydym yn nodi isod pam y daethom i'r casgliad hwn.

11 Nid yw'r Cyngor wedi ymdrin yn llawn ag unrhyw un o'r argymhellion diogelu corfforaethol sy'n weddill. O ganlyniad, ni allwn gael sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer pob agwedd ar ddiogelu corfforaethol.

12 Nid yw'r Cyngor wedi:

- diweddaru ei Bolisi Diogelu Corfforaethol.
- cwblhau'r ymarfer i nodi'r Personau Diogelu Dynodedig (DSPs) ar gyfer pob cyfarwyddiaeth.
- gwella ei berfformiad adrodd ar gyfer diogelu corfforaethol.
- datblygu trefniadau corfforaethol i sicrhau bod trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor yn cydymffurfio â pholisïau diogelu. Rydym yn cydnabod bod Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor erbyn hyn yn cyfeirio at ddiogelu corfforaethol, ond mae'r Cyngor yn dal i fod heb oruchwyliaeth.
- datblygu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i brofi systemau a chydymffurfio ag arferion diogelu'r Cyngor. Nodwn fod Archwilio Mewnol wedi cwblhau tri adolygiad diogelu yn 2023, gyda barn archwilio Sicrwydd Cyfyngedig wedi'i rhoi i ddau adolygiad, fodd bynnag, nid yw'n glir pryd y bwriedir cynnal adolygiad dilynol.

13 Rydym yn cydnabod bod y Cyngor wedi gwneud rhywfaint o gynnydd, er nad yw'n ddigon i ymdrin â'r argymhellion yn llawn.

14 Mae'r Cyngor yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei Gofrestr Risg Gorfforaethol i gynnwys diogelu corfforaethol - 'Methiant i sicrhau bod trefniadau diogelu digonol ar waith ar gyfer pobl agored i niwed ym Mlaenau Gwent.' Mae'r Cyngor yn asesu'r risg hon yn un uchel oherwydd ei heffaith bosibl a bydd yn parhau i fonitro drwy'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

15 Mae'r Cyngor yn gwella ei drefniadau i gael sicrwydd bod pob gwirfoddolwr (lle bo hynny'n berthnasol) yn cael gwiriad DBS. Erbyn hyn mae gan y Cyngor system ar gyfer cofnodi gwiriadau DBS gwirfoddol, ond system â llaw yw hon. Felly, gall y system fod yn agored i wallau mewnbynnu data dynol, ac mae'n cymryd llawer o amser i'w diweddaru a'i monitro. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwella'r trefniant hwn trwy recordio gwiriadau DBS gwirfoddolwyr ar system iTrent y Cyngor yn 2025. Dylai hyn roi gwybodaeth fwy cywir a chyfredol i'r Cyngor er mwyn cael sicrwydd bod yr holl wirfoddolwyr perthnasol yn cael gwiriad DBS.

16 Mae gan y Cyngor Fframwaith Hyfforddi Diogelu Corfforaethol sy'n nodi'n glir y math o hyfforddiant sydd ei angen arnynt, pryd y mae ei angen arnynt a'r amlder. Mae'r Cyngor yn defnyddio taenlen Excel i gofnodi lefelau cydymffurfio. Mae'r trefniant hwn yn debyg i'r system gofnodi ar gyfer gwiriadau DBS gwirfoddolwyr, gyda risgiau tebyg a mewnbynnu data, amseroldeb a monitro. Bwriad y Cyngor yw cryfhau ei broses o gofnodi a monitro hyfforddiant gorfodol drwy gyflwyno Thinqi (system Rheoli Dysgu) yn 2025. Y bwriad yw y bydd Thinqi yn cofnodi cofnodion hyfforddiant diogelu ar gyfer staff, aelodau etholedig ac ysgolion, gan gynnwys llywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gorfodi hyfforddiant ar gyfer contractwyr a thrydydd partïon, ac nid yw'r amserlenni ar gyfer hyn a chynnwys a chofnodi'r hyfforddiant hwn wedi'u cwblhau.

17 Un gwelliant nodedig yn nhrefniadau'r Cyngor oedd cyflwyno hunanasesiadau diogelu corfforaethol blynyddol yn 2022. Rhaid i bob pennaeth gwasanaeth gwblhau hunanasesiad. Mae'r hunanasesiadau wedi'u cwblhau yn rhoi trosolwg i'r Cyngor o arferion diogelu ledled yr holl wasanaethau ac yn cynorthwyo monitro a nodi meysydd i ganolbwyntio arnynt yn y dyfodol. Canfuom fod y broses hunanasesu hefyd yn hyrwyddo gwell dealltwriaeth mai cyfrifoldeb yr holl wasanaethau yw diogelu corfforaethol ac nid y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi cynhyrchu hunanasesiad ar gyfer trydydd parti.

18 Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau goruchwylio o ran diogelu corfforaethol. Yn dilyn ein hadolygiad yn 2015, sefydlodd y Cyngor Grŵp Arweinwyr Diogelu Corfforaethol, ond nid oedd ganddo statws cynrychiolaeth ddigon uchel gan y Cyngor i ddylanwadu ar newid. Yn 2024, diddymodd y Cyngor y grŵp hwn gan ffurfio Bwrdd Diogelu Corfforaethol. Gwnaeth y Bwrdd hwn, sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaeth, gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Hydref 2024. Gan gefnogi'r Bwrdd ar lefel weithredol, mae'r Cyngor yn bwriadu cyflwyno Grŵp Personau Diogelu Dynodedig. Ar adeg ein gwaith maes, roedd y trefniadau hyn yn rhai cychwynnol, felly ni allwn wneud sylw ar eu heffeithiolrwydd.

19 Ar y cyfan, mae'n siomedig nad yw'r Cyngor, ddeng mlynedd ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad diogelu cyntaf, wedi ymdrin â'i argymhellion yn llawn. Er bod rhywfaint o weithgarwch diweddar wedi cryfhau trefniadau'r Cyngor, nodwn y cynnydd hwn yn ofalus. Yn ein hadroddiad yn 2022, gwnaethom hefyd nodi camau gweithredu'r Cyngor i gryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol ychydig cyn yr adolygiad hwnnw, ond ni wnaeth y Cyngor fynd ati i gwblhau'r holl gamau angenrheidiol ar ôl i ni gyhoeddi'r adroddiad hwnnw. Os ydym eisiau cael sicrwydd bod y Cyngor wedi ymrwymo i gryfhau ei drefniadau diogelu corfforaethol, rhaid i'r Cyngor barhau i gyflawni ei weithredoedd ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn.

20 Byddwn yn parhau i olrhain cynnydd y Cyngor wrth ymdrin â phob un o'r argymhellion sy'n weddill trwy weithgarwch archwilio arall. Gall aelodau etholedig hefyd chwarae rhan weithredol wrth geisio sicrwydd bod y Cyngor yn gwella ei drefniadau diogelu corfforaethol mewn modd amserol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i aelodau oruchwylio a chraffu ar gynnydd y Cyngor o ran ymdrin ag argymhellion rheoleiddiwr allanol. Er y gall aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a/neu'r pwyllgor craffu perthnasol gael ein hadroddiadau cychwynnol, nid yw'r pwyllgorau hyn yn cael adroddiadau cynnydd yn rheolaidd o ran sut mae'r Cyngor yn ymdrin ag argymhellion. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r aelodau i graffu ar a herio cynnydd a dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif.

# Atodiad 1

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella yn ein hadolygiadau o drefniadau diogelu corfforaethol yn 2014, 2015 a 2019

**Arddangosyn 1: Argymhellion a chynigion sy'n weddill ar gyfer eu gwella o'n hadroddiadau yn 2014, 2015 a 2019**

| **Argymhellion** |
| --- |
| A1 Gwella arweinyddiaeth gorfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu, megis:<br>• lledaenu a diweddaru gwybodaeth am y penodiadau hyn yn rheolaidd i'r holl staff a rhanddeiliaid.<br>Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu, wrth ymdrin â'r argymhelliad hwn, y dylai'r Cyngor hefyd:<br>• sicrhau ei fod yn cyfathrebu enwau a rolau swyddogion arweiniol ac aelodau ar gyfer diogelu corfforaethol i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth a chontractwyr pan fydd y polisi Diogelu Corfforaethol yn cael ei adolygu i adlewyrchu'r strwythur uwchreoli newydd;<br>• sicrhau bod yr arweinwyr diogelu strategol dynodedig newydd a'r dirprwy arweinwyr yn cael eu briffio'n llawn ar eu rolau a'u cyfrifoldebau diogelu;<br>• cryfhau'r trefniadau llywodraethu sy'n cefnogi rhwydwaith y dirprwy arweinwyr diogelu strategol dynodedig;<br>• sicrhau bod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn hawdd mynd ato o brif wefan y Cyngor;<br>• sicrhau bod contractwyr yn cael y polisi diogelu corfforaethol cyn dechrau gweithio yn y Cyngor i ddeall yn llawn y rolau a'r cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau diogelu corfforaethol; a<br>• phrofi ymwybyddiaeth gweithwyr o'r polisi a'r gweithdrefnau diogelu, a'r hyder i ddefnyddio'r polisi (er enghraifft, drwy arolwg staff). |

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| A3 | Cryfhau'r broses o recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel drwy:<br>• ei gwneud yn ofynnol bod arferion recriwtio diogel ymhlith partneriaid yn y trydydd sector a gwirfoddolwyr sy'n darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor, y mae contract neu gytundeb lefel gwasanaeth yn sail iddynt.<br>Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu, wrth ymdrin â'r argymhelliad hwn, y dylai'r Cyngor hefyd:<br>• sicrhau bod ei systemau monitro yn ei alluogi i dracio prosesau recriwtio diogel a phrosesau adnewyddu DBS ar gyfer staff asiantaethau, gwirfoddolwyr a chontractwyr; a<br>• chryfhau trefniadau ar gyfer monitro bod gwasanaethau a gomisiynir gan y Cyngor yn cynnal arferion recriwtio diogel. |
| A4 | Sicrhau bod pob aelod o staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu drwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a'r ddarpariaeth yn cael ei hymestyn i holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor, ac yn cael ei gynnwys yn safonol ar raglenni sefydlu;<br>• creu system gorfforaethol gyfan i nodi, tracio a monitro cydymffurfiaeth o ran mynychu hyfforddiant diogelu gan bob adran y Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr;<br>• ei gwneud yn ofynnol bod staff perthnasol mewn sefydliadau partner sy'n cael eu comisiynu i weithio i'r Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu.<br>Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu, wrth ymdrin â'r argymhelliad hwn, y dylai'r Cyngor hefyd roi'r canlynol ar waith:<br>• cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, rolau a chyfrifoldebau diogelu a hyfforddiant diogelu yn y rhaglen sefydlu gorfforaethol;<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu staff yn cael ei gofnodi'n gyson er mwyn gallu ymgymryd â hyfforddiant gloywi mewn modd amserol;<br>• cytuno ar yr amserlen fyrraf posibl lle mae staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr yn ymgymryd â hyfforddiant cychwynnol sylfaenol ar ôl eu penodi. |

**Argymhellion**

A6 Gwella atebolrwydd ar gyfer diogelu corfforaethol drwy roi gwybod yn rheolaidd am faterion diogelu a sicrwydd i bwyllgor(au) craffu o gymharu â chyfres gytbwys o wybodaeth am berfformiad ar draws y Cyngor sy’n ymdrin â:

- meincnodi a chymariaethau ag eraill;
- data perfformiad sy’n seiliedig ar y gwasanaeth;
- data personél allweddol, megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau DBS recriwtio; a
- chyflawniad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd ar gydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu’r Cyngor.

Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu y dylai’r Cyngor, wrth ymdrin â’r argymhelliad hwn:

- sicrhau bod adroddiadau diogelu yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad, cydymffurfiaeth â DBS a lefelau presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu; a
- sicrhau bod materion a risgiau diogelu yn cael eu hadrodd arnynt ar draws holl gyfarwyddiadau, partneriaid, gwirfoddolwyr a thrydydd partïon y Cyngor sy’n darparu gwasanaethau ar ran y Cyngor.

PFI 2

Cryfhau perfformiad a rheoli risg drwy adrodd yn rheolaidd am gasgliadau o weithgarwch diogelu pob adran i fforymau perthnasol i gryfhau goruchwyliaeth a chraffu. [Dolenni i R6]

**Argymhellion**

A7 Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal proses o brofi systemau ac adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor.

Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu y dylai'r Cyngor:

- egluro rôl y Pwyllgor Archwilio ac Archwilio Mewnol o ran sicrhau gweithredu a llywodraethu trefniadau Diogelu Corfforaethol yn effeithiol, gan gynnwys yn y Polisi Diogelu Corfforaethol; a
- sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth berthnasol o raglen waith Archwilio Mewnol yn cael ei rhannu a'u bod yn cyfrannu at fframwaith goruchwyliaeth a sicrwydd y Cyngor ar gyfer diogelu, gan gynnwys gyda'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

PFI 3

Cynnwys diogelu o fewn y rhaglen archwilio fewnol i gryfhau atebolrwydd a her. [Dolen i R7]

A8 Sicrhau bod y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu yn cael eu hystyried ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ledled y Cyngor.

Mae ein hadroddiad yn 2019 yn awgrymu, wrth ymdrin â'r argymhelliad hwn, y dylai'r Cyngor:

- ystyried risgiau diogelu mewn gwasanaethau eraill heblaw am y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg.

# Atodiad 2

## Argymhellion yn ein Hadolygiad Dilynol o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu Plant yn 2022

**Arddangosyn 2: Argymhellion wedi'u cynnwys yn adroddiad 2022**

| **Argymhellion** | |
|---|---|
| A1 | Mae angen i'r Cyngor gymryd camau eraill i gydymffurfio'n llawn â'r argymhellion yn ein hadroddiad dilynol ym mis Hydref 2019 ar drefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu plant. |
| A2 | Mae angen i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau monitro ar gyfer trydydd partïon fel y gall sicrhau ei hun eu bod yn cydymffurfio â pholisïau diogelu'r Cyngor. Dylai ystyried a oes modd defnyddio adnodd hunanasesu fel yr un a ddefnyddiwyd yn ddiweddar gan gyfarwyddiaethau'r Cyngor â thrydydd partïon i ddeall cydymffurfiaeth yn well. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.